



Hysbysiad Preifatrwydd – Y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf



cyllid myfyrwyr **cymru**
student finance **wales**



Student Finance England yw'r gwasanaeth cyllid i fyfyrwyr a ddarperir yn Lloegr gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf.

Rhif Cyswllt: 0300 100 0607

Cyllid Myfyrwyr Cymru yw'r gwasanaeth cyllid i fyfyrwyr a ddarperir yng Nghymru gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Rhif Cyswllt: 0300 200 4050



Student Finance NI yw'r gwasanaeth cyllid i fyfyrwyr a ddarperir yng Ngogledd Iwerddon gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf a'r Awdurdod Addysg, a ariennir gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Rhif Cyswllt: 0300 100 0077



SAAS yw'r gwasanaeth Cyllid i Fyfyrwyr a ddarperir yn yr Alban. Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf yn gweinyddu gwybodaeth a phrosesau yn ymwneud â thalu ac ad-dalu benthyciadau yn unig ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Rhif Cyswllt: 0300 100 0609

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig | 3 |
| Datganiad Diogelu Data / Hysbysiad Preifatrwydd | 3 |
| Pa wybodaeth ydyn ni'n casglu amdanoch? | 4 |
| Sut mae'ch data personol yn cael ei gasglu? | 5 |
| Sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi? | 5 |
| Sail Gyfreithiol ar gyfer Prosesu eich Gwybodaeth Personol | 6 |
| Newid Diben | 7 |
| Penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio | 7 |
| Rhannu Data | 8 |
| Trosglwyddo Gwybodaeth tu allan i'r UE | 10 |
| Diogelwch Data | 10 |
| Dargadw Data | 10 |
| Hawliau Mynediad, Cywiro, Dileu a Chyfyngu | 11 |
| Eich dyletswydd i'n hysbysu o newidiadau | 11 |
| Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth personol | 11 |
| Hawl i Dynnu Cydsyniad yn Ôl | 12 |
| Swyddog Diogelu Data a'r Hawl i Gwyno | 12 |
| Newidiadau i'r Datganiad Diogelu Data/Hysbysiad Preifatrwydd hwn | 13 |

Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig (“SLC”, “ni”, “ninnau” ac “ein”)

Datganiad Diogelu Data / Hysbysiad Preifatrwydd (yr “Hysbysiad”)

SYLWER: Mae'r Hysbysiad hwn yn berthnasol i gwsmeriaid (yn cynnwys ymgeiswyr, myfyrwyr, rhieni, partneriaid ac/neu noddwyr) neu gyflenwyr (ycyfeirir atynt o hyn ymlaen fel “chi”, “eich”, “cwsmer”, “myfyriwr” ac/neu “gyflenwr” fel fo'n briodol yn y cyd-destun penodol) sydd wedi cefnogi cais. Esbonia'r Hysbysiad sut gall SLC ac eraill ddefnyddio gwybodaethersonol (fel y diffinnir isod).

Mae **SLC** yn sefydliad dielw dan berchnogaeth y Llywodraeth a sefydlwyd yn 1989 i ddarparu grantiau i fyfyrwyr mewn prifysgolion a cholegau yn y Deyrnas Unedig (“**DU**”). Trosglwyddwyd rhai swyddogaethau penodol yn ymwneud â chynlluniau cyllid i fyfyrwyr o fewn y DU i SLC gan:

- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg,
- Gweinidogion Cymru,
- Adran yr Economi, Gogledd Iwerddon, a
- Gweinidogion yr Alban.

Os ydych chi:

- wedi gwneud neu gychwyn cais am gyllid myfyrwyr trwy:
 - Student Finance England (“**SFE**”),
 - Cyllid Myfyrwyr Cymru (“**SFW**”), neu
 - Student Finance Northern Ireland (“**SFNI**”) (neu os ydych chi'n rhiant neu'n bartner sydd wedi cefnogi cais o'r fath trwy SFE, CMC neu SFNI),
 - Student Awards Agency Scotland (“**SAAS**”),
 - Gwasanaethau Cyllid i Fyfywyr fel myfyriwr i'r UE yn astudio yng Nghymru, Lloegr, neu Ogledd Iwerddon; neu
- wedi ymgeisio am Lwfans Cynhaliath Addysg (“**EMA**”) a ariennir gan Gynulliad Gogledd Iwerddon,
- wedi ymgeisio am LCA neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru,
- darparu gwasanaeth i fyfyriwr, yn cynnwys, i roi enghraifft heb gyfyngiad, gefnogaeth gofal plant ac/neu Lwfans i Fyfywyr Anabl (“**DSA**”).

Yn rhan o'ch cais, byddwch wedi darparu gwybodaeth (“**gwybodaeth bersonol**”). Bydd SLC yn cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol i weinyddu'r cynlluniau cyllid i fyfyrwyr (neu ran ohonynt) yn y Deyrnas Unedig ar gyfer ac ar ran gweinyddiaethau'r Deyrnas Unedig a nodir uchod.

Mae SFE ac SFW yn enwau masnachu i SLC sy'n darparu gwasanaethau cyllid i fyfyrwyr i fyfyrwyr sy'n preswyllo yng Nghymru a Lloegr. Mae SFNI yn bartneriaeth rhwng SLC a'r Awdurdod Addysg yng Ngogledd Iwerddon sy'n darparu gwasanaethau cyllid i fyfyrwyr i fyfyrwyr sy'n preswyllo yng Ngogledd Iwerddon. Mae Gwasanaethau Cyllid i Fyfywyr yn enw masnachu i SLC sy'n darparu'r gwasanaethau cyllid i fyfyrwyr i fyfyrwyr o'r UE sy'n astudio yng Nghymru, Lloegr, neu Ogledd Iwerddon.

Bydd SLC yn cadw'r wybodaeth bersonol sydd yn eich cais yn unol â deddfwriaeth diogelu data berthnasol ar

gyfer y dibenion a sefydlir yn yr Hysbysiad hwn. Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr Hysbysiad hwn, ynghyd ag unrhyw hysbysiadpreifatrwydd arall a ddarparwn ar achlysuron penodol pan fyddwn yn casglu neu brosesu eich gwybodaeth bersonol, fel eich bod yn gwbl ymwybodol o sut a pham ydyn ni'n defnyddio gwybodaeth o'r fath.

Pa wybodaeth ydyn ni'n casglu amdanoch?

Fe allwn gasglu, storio, a defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth:

- manylion cyswllt fel enw, teitl, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost personol,
- dyddiad geni,
- rhyw,
- Rhif Yswiriant Gwladol (“**NINO**”),
- data ariannol, yn cynnwys manylion cyfrif banc, manylion ad-daliadau benthyciad myfyriwr a manylion incwm blynyddol,
- manylion cenedligrwydd a hawl preswyllo,
- hanes addysg,
- hanes preswyllo,
- manylion y cartref (er enghraifft os oes gennych chi unrhyw ddibynyddion),
- statws cyflogaeth,
- eich cyfeiriad Protocol Rhynggrwyd, a manylion pa fersiwn o borwr y we a ddefnyddioch,
- gwybodaeth ynghylch sut ydych chi'n defnyddio gwefannau SLC, cwcis a thechnegau tagio tudalennau. Ceir rhagor o fanylion ar y gwefannau perthnasol, a
- unrhyw wybodaeth arall fyddwch chi'n ei gwirfoddoli i ni trwy gyfathrebiadau rhyngoch chi ac SLC.

Fe allwn hefyd gasglu, storio, a defnyddio'r “categorïau arbennig” canlynol o wybodaeth bersonol:

- gwybodaeth am eich hil neu ethnigrwydd, cred grefyddol, a chyfeiriadedd rhywiol (er mwyn i ni allu, er enghraifft, cydymffurfio gyda'n dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010),
- gwybodaeth am eich iechyd, yn cynnwys unrhyw gyflyrau meddygol: a chofnodion salwch (er mwyn i ni allu, er enghraifft, weinyddu ceisiadau ar gyfer DSA a gwneud addasiadau rhesymol yn unol â'n rhwymedigaethau statudol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010),
- gwybodaeth am gollfarnau troseddol a throseddau (er enghraifft, ble darperir hyn fel tystiolaeth i gefnogi cais neu apêl).

Gallwn hefyd gasglu, storio, a defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth am aelodau'ch teulu, yn cynnwysdibynyddion sy'n blant neu oedolion, er mwyn asesu eich cymhwyster ar gyfer, a hawl i, gyllid i fyfyrwyr:

- enw,
- dyddiad geni,
- rhyw,
- manylion ariannol, yn cynnwys incwm,

- manylion cenedligrwydd a hawl preswyllo, a
- manylion gofal plant neu addysg.

Gallwn hefyd gasglu, storio, a defnyddio gwybodaeth am unrhyw un gyda Phŵer Atwrnai, Dirprwy wedi ei benodi gan y Llys Gwarchod neu gysyniad i weithredu ar eich rhan. I'r dibenion hyn gallwn felly gasglu'r categorïau canlynol o wybodaeth bersonol:

- manylion cyswllt fel enw, teitl, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost personol,
- dyddiad geni,
- perthynas i'r ymgeisydd, a
- hyd yr awdurdod/cydsyniad.

Sut mae'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei gasglu?

Gallwn gasglu eich gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

- **Pan fyddwch chi'n ei ddarparu i ni'n uniongyrchol**

Gallwch roi eich gwybodaeth bersonol i ni trwy'r prosesau ceisiadau cyllid i fyfyrwyr, ad-daliadau benthyciad myfyriwr a gordaliad cyllid i fyfyrwyr. Gall yr gwybodaeth bersonol gael ei darparu gennych chi, eich partner, perthnasau(yn cynnwys llys-rieni) neu Atwrnai/Dirprwy Llys Gwarchod.

- **Pan fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo gan drydydd partïon**

Gellir rhannu eich gwybodaeth bersonol gan ac/neu ymysg y Cyd Reolyddion (fel y diffinnir yn y tabl isod dan Rhannu Data) i ddibenion gweinyddu eich benthyciad.

Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth ychwanegol gan drydydd partïon, yn cynnwys Cyllid a Thollau EM (“**HMRC**”), y Swyddfa Gartref, adrannau eraill y llywodraeth fel yr Adran Gwaith a Phensiynau (“**DWP**”), ac asiantaethau atal twyll a gorfodi'r gyfraith fel yr Heddlu a'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol.

Dylech wirio polisïau preifatrwydd y Cyd Reolwr perthnasol ac adrannau eraill y llywodraeth a enwir uchod (ar gael ar eu gwefannau) er mwyn deall yn llawn sut fyddant yn prosesu eich data.

Sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi?

Rydym angen yr wybodaeth bersonol yma i weinydd cyllid i fyfyrwyr o fewn y fframwaith deddfwriaethol a osodir gan y Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Yn benodol, rydym ei angen er mwyn:

- prosesu eich cais am gyllid i fyfyrwyr,
- pennu a oes gennych hawl i gyllid i fyfyrwyr,
- wneud taliad cyllid i fyfyrwyr,
- cadw cofnodion cywir a chyfredol,
- ateb ymholiadau sydd gennych chi (neu eich rhiant(rhieni)/partner) parthed eich cais am gyllid i fyfyrwyr,
- prosesu unrhyw gwyn neu apêl a gyflwynwch, a
- gweinyddu ac/neu ddilyn ad-daliad unrhyw fenthyciad ac/neu ordaliad o gyllid i fyfyrwyr a dderbyniwch.

Gallwn hefyd ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer y dibenion canlynol:

- i ganfod, ymchwilio ac atal trosedd yn cynnwys twyll yn defnyddio'r wybodaeth a roddwyd i ni, dynodwyr ar-lein, a gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, fel ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau cyhoeddus eraill,
- monitro cyfle cyfartal,
- i ddibenion ymchwil ac ystadegol,
- caniatáu ar gyfer archwilio asesiadau a thaliadau cyllid i fyfyrwyr,
- cynnal neu ddatblygu systemau a phrosesau, a
- gwella lefelau gwasanaeth.

Sail Gyfreithiol ar gyfer Prosesu eich Gwybodaeth Bersonol

Amlinellir y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol mewn deddfwriaeth diogelu data. Bydd rhywfaint o'r seiliau uchod dros brosesu yn gorgyffwrdd gydag eraill, felly efallai y bydd sawl sail i gyfiawnhau ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol.

Byddwn yn bennaf yn prosesu eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus o weinyddu cyllid i fyfyrwyr yn y DU ac i sicrhau y defnyddir ein cronfeydd cyhoeddus yn briodol.

Mae prif rolau a thargedau perfformiad SLC yn cynnwys:

- defnyddio technoleg a phrosesau busnes gwell i gryfhau a symleiddio'r system cyllid i fyfyrwyr,
- gwneud gwelliannau a gwella profiad y cwsmer,
- cyflawni newidiadau i'r polisi cyllid myfyrwyr, a
- gwella boddhad cwsmeriaid.

Efallai y byddwn felly'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol i'r dibenion hyn, sy'n rhan o'n swyddogaeth gyhoeddus. Mae prosesu eich gwybodaeth bersonol i wneud taliadau cyllid i fyfyrwyr hefyd yn angenrheidiol er mwyn i nigyflawni ein goblygiadau dan y contract yr ydych yn cytuno iddo gyda ni i ddarparu cyllid i fyfyrwyr.

Mae gennym hefyd oblygiadau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, er enghraifft rhaid i ni gydymffurfio gyda dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Felly gallwn ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

Ar gyfer DSA (yn unol â'r cydsyniad DSA i rannu adran o'r cais am DSA) byddwn yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol yn seiliedig ar y cydsyniad rydych wedi darparu i ni.

Gan ein bod yn prosesu data categori arbennig, rhaid i ni hefyd nodi amod categori arbennig ar gyfer prosesu. Rydym yn prosesu data categori arbennig ble mae unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- (i) mae gennym eich caniatâd penodol,
- (ii) mae'n angenrheidiol am resymau budd sylweddol i'r cyhoedd, neu
- (iii) mae'n angenrheidiol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd ac at ddibenion ystadegol.

Newid Diben

Fyddwn ni ddim ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer y dibenion y gwnaethom ei gasglu, oni bai ein bod yn ystyried yn rhesymol bod angen i ni ei defnyddio am ddiben arall a bod y diben yma yn gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os byddwn angen defnyddio eich gwybodaeth bersonol i ddiben gwahanol, byddwn yn eich hysbysu ac yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi i wneud hynny.

Sylwer y gallwn brosesu eich gwybodaeth bersonol heb eich gwybodaeth neu gydsyniad, yn unol â'r rheolau uchod, ble mae hyn yn ofynnol neu wedi ei ganiatáu gan y gyfraith.

Penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio

Oherwydd y nifer o geisiadau mae SLC yn derbyn yn flynyddol, mae SLC yn dyblygu asesiad â llaw ein haseswyr SLC ac yn cyflawni prosesu awtomataidd gan ddefnyddio'r un rheolau fyddai aseswyr yn defnyddio i bennu os yw ymgeisydd yn gymwys ar gyfer cyllid yn seiliedig ar reoliadau a pholisïau llywodraeth.

Efallai y bydd eich cais yn destun penderfyniad wedi'i awtomeiddio os ydych yn:

- fyfyrwr newydd yn ymgeisio am fenthyciad myfyriwr heb brawf modd,
- myfyriwr newydd yn ymgeisio am fenthyciad myfyriwr gyda phrawf modd ac yn gallu cadarnhau eich hunaniaeth ac incwm yr aelwyd try ein trefniadau rhannu data gyda chyrrff eraill y llywodraeth, neu
- myfyriwr sy'n dychwelyd, sydd wedi ymgeisio'n flaenorol ac wedi derbyn benthyciad myfyriwr heb brawfmodd.

Mae'r prosesu awtomataidd hwn hefyd yn lleihau'r angen i chi gwblhau cais llawn ar gyfer blynyddoedd academaidd dilynol os nad yw'r wybodaeth a ddarparoch i SLC yn flaenorol wedi newid. Os yw'ch gwybodaeth wedi newid, gallwch wneud newidiadau â llaw i'ch cais ar eich cyfrif ar-lein neu gysylltu â ni ar y rhif ffôn perthnasol ar gyfer eich domisil yn unol â thudalen un yr hysbysiad hwn.

Unwaith y byddwch wedi gwneud y newidiadau â llaw ar-lein, bydd hyn yn ysgogi ailasesiad o'r cais gan aseswr, a fydd yn ailasesu eich cais yn seiliedig ar yr wybodaeth newydd, ac yn gwneud penderfyniad newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth wedi ei diweddarau. Efallai y bydd neu na fydd yr ailasesiad yn newid y penderfyniad gwreiddiol a wnaed.

Bydd y broses gwneud penderfyniadau wedi'i awtomeiddio yn cael ei hadolygu a phrofi yn flynyddol i sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn gywir ar yr adeg y'i cyflawnir yn seiliedig ar yr wybodaeth mae'r cwsmer wedi darparu i SLC yn eu cais y flwyddyn flaenorol.

Am ragor o wybodaeth ar sut y prosesir eich gwybodaeth bersonol trwy wneud penderfyniadau awtomataidd neu i herio penderfyniad awtomataidd, neu i ofyn am ymyrraeth ddynol, cysylltwch â ni yn defnyddio'r rhif ffôn cyswllt perthnasol ar dudalen un yr hysbysiad hwn.

Os ydych chi eisiau apelio yn erbyn ein penderfyniad i beidio dyfarnu cyllid i fyfyrwyr i chi neu os ydych yn anghytuno gyda sut mae unrhyw gyllid wedi ei gyfrifo, cysylltwch â ni yn ddibynol ar eich anheddle:

- Cymru a Lloegr - e-bost: formal_appeals@slc.co.uk
- Gogledd Iwerddon – cysylltwch yn uniongyrchol â'ch Awdurdod Addysg.
- SAAS – cysylltwch yn uniongyrchol â SAAS.

Rhannu Data

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon ble fo'n ofynnol gan y gyfraith neu ble mae'n angenrheidiol i brosesu eich cais neu weinyddu cyfrif cefnogaeth myfyriwr, yn cynnwys ad-daliadau, er enghraifft gyda:

| Gyda phwy ydyn ni'n rhannu eich | Pam ein bod yn rhannu eich gwybodaeth |
|---|---|
| Banciau a Chymdeithasau adeiladu | <ul style="list-style-type: none"> I dalu am fenthyciadau, grantiau neu fwrsariaethau y mae gennych chi hawl iddynt. |
| Prif Weithredwr yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau | <ul style="list-style-type: none"> I fonitro perfformiad y system cyllid i fyfyrwyr ac i ddatblygu polisïau neu fentrau yn y dyfodol. |
| Darparwyr Gofal Plant | <ul style="list-style-type: none"> I ddilysu'r wybodaeth a roddwch i ni yn rhan o unrhyw gais am gymorth gyda gofal plant ac i sicrhau bod swm unrhyw gymorth o'r fath yn gywir. |
| Trydydd Partion Wedi Contractio | <ul style="list-style-type: none"> I helpu SLC i gyflawni anghenion darparu gwasanaeth, efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol chi neu'ch dibynyddion yn unol â threfniadau rhannu data sy'n cynnwys mesurau diogelu data. |
| Cyflenwyr Cyfarpar Anabledd | <ul style="list-style-type: none"> I ddarparu'r gefnogaeth neu offer rydych angen fel myfyriwr (ble mae'r ymgeisydd wedi cydsynio). |
| Aseswyr Anghenion Anabledd | <ul style="list-style-type: none"> I sicrhau'ch bod yn cael y gefnogaeth rydych angen fel myfyriwr (er enghraifft, er mwyn iddynt gyflawni asesiad i bennu eich anghenion) (ble mae'r ymgeisydd wedi cydsynio). |
| DWP | <ul style="list-style-type: none"> I ddilysu eich NINO a manylion personol yn cynnwys, os yn briodol, lefel unrhyw fudd-daliadau yr ydych yn derbyn ar hyn o bryd (i ddibenion asesu eich cymhwyster am gyllid i fyfyrwyr). I wirio incwm o fudd-daliadau i ddibenion ad-dalu. |
| Asiantaethau atal twyll a gorfodi'r gyfraith fel yr Heddlu a'r Asiantaeth Troseddau Difrifol (Yn cynnwys CIFAS) | <ul style="list-style-type: none"> I wirio cywirdeb gwybodaeth a roddwyd i ni ac i atal a chanfod twyll yn y broses ymgeisio cyllid i fyfyrwyr ac yn fwy cyffredinol. Os rhoddir gwybodaeth ffug neu anghywir, ac y nodir twyll, fe anfonir manylion at asiantaethau atal twyll a gorfodi'r gyfraith a all gyrchu a defnyddio'r wybodaeth yma. Os canfyddir twyll, gellir gwrthod gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth penodol i chi. Ceir rhagor o fanylion ar sut y defnyddir eich gwybodaeth gan asiantaethau atal twyll o'r fath, a'ch hawliau diogelu data, trwy ymweld â www.cifas.org.uk/fpn |
| Swyddfa Gofrestru Gyffredinol | <ul style="list-style-type: none"> I wirio tystysgrifau geni a marwolaeth. |
| HMRC | <ul style="list-style-type: none"> I ddilysu lefelau incwm os ydych chi'n cefnogi cais a'ch NINO i hwyluso casglu ad-daliadau benthyciad gan fyfyrwyr. Gall HMRC hefyd fod wedi rhannu mynediad at eich gwybodaeth cyfrif benthyciad i helpu SLC i gasglu ad-daliadau benthyciad ac i'r diben o ganfod twyll. |
| Y Swyddfa Gartref yn cynnwys Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi ac Fisâu a Mewnffudo y DU | <ul style="list-style-type: none"> I ddilysu eich manylion pasbort neu hawlen fiometrïg preswylïo ac i wirio dilysrwydd fisâu, manylion preswylïo, a statws mewnfudo. |

| | |
|---|--|
| Asiantaethau Gwirio Hunaniaeth ac Incwm | <ul style="list-style-type: none"> I gyflawni gwiriadau Hunaniaeth ac Incwm, i hwyluso ad-dalu cefnogaeth i fyfyrwyr ac i ddibenion canfod twyll. |
| Y Ganolfan Byd Gwaith | <ul style="list-style-type: none"> I'ch helpu i gael NINO os oes angen (efallai y byddant yn gofyn iSLC ddarparu cadarnhad o'ch cymhwyster am fenthyciad). |
| Rheolwyr Data ar y Cyd: Yr Adran Addysg, Gweinidogion Cymru, Adran yr Economi Gogledd Iwerddon, a SAAS. | <ul style="list-style-type: none"> I ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid i chi ac i fonitro perfformiad y system cyllid i fyfyrwyr ac i ddatblygu polisiau ac/neu fentrau yn y dyfodol. Gall y sefydliadau hyn a'r SLC rannu data gyda thrydydd partïon i ddibenion ymchwil ac ystadegau. Bydd unrhyw allbwn a gyhoeddir yn ddiennw ac ni fydd modd adnabod unigolion. |
| Gwasanaethau Busnes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; Cyngor Gofal Cymru; Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon | <ul style="list-style-type: none"> I asesu a ydych chi'n gymwys i dderbyn cefnogaeth ffioedd dysgu ac/neu fwrariaeth. |
| Helpwyr anfeddygol | <ul style="list-style-type: none"> I sicrhau eich bod yn derbyn y cymorth allai fod angen arnoch yn y brifysgol |
| Trydydd Partïon Cysylltiedig i Ad-daliadau (yn cynnwys y Llywodraeth neu Asiantaeth Llywodraeth mewn gwlad arall) | <ul style="list-style-type: none"> I helpu lleoli ac/neu helpu gweithredu i adfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus gennych chi ble rydych chi wedi torri eich amodau a thelerau. |
| Darparwyr Tacsi | <ul style="list-style-type: none"> I sicrhau'ch bod yn cael cludiant os ydych chi wedi ymgeisio amDSA |
| Y Swyddfa Myfyrwyr ("Ofs"), Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig ("UKRI") a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. ("HESA") | <ul style="list-style-type: none"> I ddibenion cyflawni swyddogaethau statudol yn ymwneud ag ariannu addysg ac ar gyfer dadansoddiad ystadegol. Ni ddylai'r HESA, Ofs na UKRI ddatgelu pwy yw unrhyw unigolion mewn canlyniadau a gyhoeddir. |
| Prifysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant* | <ul style="list-style-type: none"> I dalu unrhyw gefnogaeth ffioedd dysgu mae gennych hawl iddynt. I brosesu eich gwybodaeth i ddibenion eich darparu ag unrhyw Fwrariaeth neu ysgoloriaeth nad oes rhaid ei ad-dalu y mae gennych hawl iddo. I ddilysu manylion eich cwrs astudio yn cynnwys manylion parthed cofrestru a phresenoldeb. I sicrhau bod myfyrwyr yn cael y gefnogaeth maent angen ar gyfer eu hastudiaethau os ydynt wedi ymgeisio am DSAs (ble rhoddwyd cydsyniad). I ddibenion ymchwil gyda chydsyniad y gwrthrych data. |
| Darparwyr Cyfleustodau | <ul style="list-style-type: none"> i ddilysu'r dystiolaeth a roddoch i ni |

Mae ein ceisiadau a chanllawiau cysylltiedig yn sefydlu pa wybodaeth fydd neu y gellir ei rhannu gyda thrydydd partïon, ac i ba ddiben. Adolygwch y rhain yn llawn er mwyn sefydlu pa ddata personol a rennir gyda thrydydd partïon.

* Prifysgolion, colegau a darparwyrhyfforddiant

Efallai y bydd y rhai myfyrwyr yn gymwys am Fwrariaeth neu ysgoloriaeth nad oes rhaid ei ad-dalu. Bydd eich Prifysgol, Coleg neu ddarparwr hyfforddiant yn dod yn rheolydd data ar y cyd parthed yr wybodaeth a ddefnyddir i

bennu os ydych yn gymwys i dderbyn Bwrsariaeth neu ysgoloriaeth neu beidio, ac os ydych chi'n gymwys, bydd yn talu'r swm perthnasol i chi. Er mwyn i'ch Prifysgol, Coleg neu Ddarparwr Hyfforddiant bennu eich cymhwyster, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch gwybodaeth bersonol yn cynnwys eich manylion cyswllt, eich amgylchiadau ariannol a manylion y cwrs yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth am eich cymhwyster ar gyfer cyllid i fyfyrwyr gyda nhw. Os nad ydych chi eisiau i ni rannu eich gwybodaeth gyda'ch Prifysgol, Coleg neu Ddarparwr Hyfforddiant i'r dibenion hyn, cysylltwch â ni yn defnyddio'r rhif ffôn cyswllt perthnasol ar dudalen un yr hysbysiad hwn. Mewn rhai achosion, bydd eich Prifysgol, Coleg neu Ddarparwr Hyfforddiant hefyd yn rheolydd data ar y cyd o fanylion cofrestru a phresenoldeb a ddefnyddir i wirio manylion eich cwrs astudio.

Trosglwyddo Gwybodaeth tu allan i'r UE

Gallwn drosglwyddo'r wybodaeth bersonol a gasglwn amdano i wledydd eraill tu allan i'r UE wrth gyflawni'r dibenion penodol y casglwyd yr wybodaeth bersonol ar eu cyfer. Fyddwn ni ddim ond yn trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol i wledydd eraill tu allan i'r UE y mae eu cyfreithiau diogelu data yn cynnig lefel gyfatebol neu uwch o amddiffyn na chyfreithiau diogelu data'r UE a'r DU. Ble nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith i sicrhau y diogelir eich gwybodaeth bersonol.

Diogelwch Data

Rydym wedi sefydlu mesurau diogelwch priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, defnyddio, neu gyrchu yn ddamweiniol heb awdurdod, ei haddasu, neu ei datgelu. Yn ogystal, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i gyflogeion, asiantau, contractwyr a thrydydd partion eraill sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond dan ein cyfarwyddyd ni fyddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ddelio gydag unrhyw doriad diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol o doriad ble mae'n ofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny

Dargadw Data

Mae SLC yn dargadw eich gwybodaeth bersonol, a gall ddargadw gwybodaeth eich partner a'ch perthnasau (yn cynnwys llys-rieni) er mwyn:

- caniatáu ar gyfer archwilio asesiadau a thaliadau cyllid i fyfyrwyr,
- cynnal neu ddatblygu systemau a phrosesau,
- gwella boddhad cwsmeriaid,
- eich darparu â gwasanaethau cwsmeriaid, ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gennych a diweddarau gwybodaeth eich cyfrif,
- galluogi asesiad o unrhyw gymhwyster neu hawl i astudio yn y dyfodol,
- hwyluso ad-daliad cyllid i fyfyrwyr, ac
- ymateb i geisiadau i addasu gwybodaeth ad-dalu a dderbyniwyd gan HMRC.

Dim ond am ba bynnag hyd fydd angen i gyflawni'r dibenion dros gasglu fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu adrodd. I bennu'r cyfnod dargadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur, a sensitifrwydd y data personol, y risg bosibl o niwed o ddefnydd heb awdurdod neu ddatgelu'r data personol, i ba ddiben ydyn ni'n prosesu'r data personol acos allwn ni gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, yn ogystal ag unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol. Dan rai

amgylchiadau, byddwn yn cadw data personol am gyfnod amhenodol, yn gyffredinol i'r dibenion a ddisgrifir uchod. Am ragor o wybodaeth ar ddargadw data, gweler Polisi Rheoli Cofnodion c trwy fynd i www.gov.uk/government/publications/slcs-data-retention-policy neu cysylltwch â'r Swyddfa Diogelu Data, Student Loans Company Limited, 100 Bothwell Street, Glasgow, G2 7JD.

Dan rai amgylchiadau eraill y byddwn yn gwneud eich gwybodaeth bersonol yn ddiennw neu dan ffug enw fel na fydd bellach yn gysylltiedig i chi, ac os felly gallwn ddefnyddio gwybodaeth o'r fath heb roi hysbysiad pellach i chi.

Hawliau Mynediad, Cywiro, Dileu a Chyfyngu

Eich dyletswydd i'n hysbysu o newidiadau

Mae'n bwysig fod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyffredol. Mae'n ofyniad i chi roi gwybod i ni os bydd eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas â ni.

Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol

Mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol:

- **Gofyn am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol: Mae gennych chi hawl i gael mynediad i'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch, yn amodol i gyfyngiadau penodol - cyfeirir at hyn fel cais gwrthrych am wybodaeth, neu DSAREwch i <https://www.gov.uk/government/publications/data-subject-access-request> am ragor o wybodaeth os hoffech chi arfer yr hawl hwn.
- **Gofyn am gywiro** eich gwybodaeth bersonol: Mae gennych yr hawl i gael cywiro eich gwybodaeth bersonol, neu ei hunioni, os yw'n anghywir neu'n anghyflawn. Os byddwch yn dod yn ymwybodol bod unrhyw ddarn o ddata sydd gennym amdanoch yn anghywir, dylech gysylltu â ni cyn gynted ag sy'n ymarferol. Rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith wedi dod yn ymwybodol o unrhyw newid amgylchiadau sy'n gofyn am wneud newidiadau i unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Rhaid i ni gydymffurfio ag unrhyw gais o'r fath o fewn mis. Gellir ymestyn hyn i ddau fis pan fydd y cais unioni yn un cymhleth. Ewch i <http://www.gov.uk/slc> am ragor o wybodaeth os hoffech chi arfer yr hawl hwn.
- **Gofyn am ddilead (nei ddiddymu)** eich gwybodaeth bersonol: Mae gennych chi hawl i ofyn am ddileu neu ddiddymu eich gwybodaeth bersonol ble nad oes rheswm cymhellol dros barhau i'w phrosesu. Bydd eich hawl i wneud cais yn codi dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, ble nad yw data bellach yn angenrheidiol i'r diben y'i casglwyd neu ble rydych chi'n tynnu eich cydsyniad dros brosesu eich data yn ôl (a dyma'r unig sail dros brosesu eich data). Os hoffech chi arfer yr hawl yma, rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig yn dynodi'r wybodaeth yr hoffech ei dileu. Yna byddwn yn ystyried y cais yma yn unol â'n rhwymedigaethau dan ddeddfau diogelu data. Yna byddwn yn ystyried y cais yma yn unol â'n rhwymedigaethau dan ddeddfau diogelu data.
- **Gofyn am gyfyngu prosesu** eich gwybodaeth bersonol: Mae'r hawl gennych i rwystro neu atal prosesu eich gwybodaeth bersonol dan amgylchiadau arbennig. Os, er enghraifft, fyddwch chi'n herio cywirdeb y data personol, gellir cyfyngu prosesu nes bydd cywirdeb yr wybodaeth bersonol wedi ei gwirio. Gallai hyn hefyd fod yn berthnasol os byddwch yn herio bod y prosesu'n anghyfreithlon. Os hoffech chi arfer yr hawl yma, rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig yn dynodi'r wybodaeth yr hoffech i ni roi cyfyngiad ar ei prosesu.
- **Gofyn am drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall: Mae gennych chi hawl i gael ac ailddefnyddio

eich gwybodaeth bersonol i'ch dibenion eich hun ar draws gwahanol wasanaethau – cyfeirir at hyn fel yr hawl i gludadwyedd data. Mae hyn yn eich galluogi i symud, copïo neu drosglwyddo data personol yn hawdd o un amgylchedd TG i un arall mewn modd saff a diogel. Os hoffech chi arfer yr hawl yma, rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig yn dynodi'r wybodaeth yr hoffech ei throsglwyddo. Ble mae'r hawl yma ar gael, rhaid i ni gydymffurfio ag unrhyw gais o'r fath o fewn mis.

- **Gwrthwynebu i ni brosesu** eich gwybodaeth bersonol: Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu i brosesu eich data personol. os yw'n seiliedig ar berfformiad tasg a gyflawnwyd er lles y cyhoedd. Mae gennych chi hefyd hawl i wrthwynebu os byddwn yn prosesu eich gwybodaeth i ddibenion ymchwil neu os ydyn ni'n cyflawni prosesu awtomataidd (gweler yr adran Penderfyniadau wedi'u Hawtomeiddio uchod). Os hoffech chi arfer yr hawl yma, rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig yn amlinellu ar ba sail ydych chi'n gwrthwynebu. Byddwn yn ystyried unrhyw gais yn unol â'n rhwymedigaethau dan ddeddfau diogelu data.

Os ydych chi eisiau arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, ysgrifennwch at: **Subject Access Requests, Verification Operations, Student Loans Company Limited, 100 Bothwell Street, Glasgow, G2 7JD**. Sylwer y gall fod angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych chi i'n helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r hawl rydych chi'n ei arfer. Rhaid i ni gydymffurfio ag unrhyw geisiadau o'r fath o fewn mis. Gellir ymestyn hyn i ddau fis ychwanegol pan fydd y cais unioni yn un cymhleth.

Hawl i Dynnu Cydsyniad yn Ôl

Yn yr amgylchiadau cyfyngedig ble rydych wedi rhoi cydsyniad i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol i ddiben penodol, mae gennych chi'r hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl ar gyfer y prosesu penodol hwnnw unrhyw bryd. I dynnu eich cydsyniad yn ôl, gweler y rhifau cyswllt perthnasol ar dudalen un yr hysbysiad hwn. Unwaith y byddwn wedi derbyn hysbysiad eich bod wedi tynnu'ch cydsyniad yn ôl, ni fyddwn yn parhau i brosesu'ch gwybodaeth i'r diben neu ddibenion y cytunoch iddynt yn wreiddiol, oni bai ei bod yn ofynnol i niwneud hynny dan y gyfraith, neu os oes sail gyfreithlon arall dros wneud hynny mewn cyfraith.

Swyddog Diogelu Data a'r Hawl i Gwyno

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data ("DPO") i oruchwylio cydymffurfiad gyda'r Hysbysiad hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu sut ydyn ni'n trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r DPO:

Swyddog Diogelu Data
100 Bothwell Street
Glasgow
G2 7JD

E-bost: DPO@slc.co.uk

Mae gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ("ICO"), awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data ynghylch sut ydym yn prosesu (neu wedi prosesu) eich gwybodaeth bersonol. Gallwch gysylltu â'r ICO trwy ysgrifennu at:

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane Wilmslow SK9 5AF**

**E-bost: icocamework@ico.org.uk
Ffôn: 0303 123 1113**

Newidiadau i'r Hysbysiad hwn

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddarau'r Hysbysiad hwn ar unrhyw adeg. Gallwn hefyd eich hysbysu mewn ffyrdd eraill o bryd i'w gilydd ynghylch prosesu eich gwybodaeth bersonol.